**BWRDD PENSIWN 04-02-2025**

**Yn bresennol**:

Anthony Deakin ac Eifion Jones (Cynrychiolwyr Aelodau)

Sioned Parry (Cadeirydd) a Ned Michael (Cynrychiolwyr Cyflogwr)

**Swyddogion**: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**ERAILL A WAHODDWYD**

Cyng. Elin Hywel (Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau) - arsylwi

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau)

Croesawyd y Cyng. Elin Hywel I'r cyfarfod ac fe'i llongyfarchwyd ar ei phenodiad fel Cadeirydd Y Pwyllgor Pensiynau

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

- **DIWEDDARIAD SEDD WAG**

  Cafwyd diweddariad gan y Pennaeth Cyllid ar y camau sydd wedi eu cymryd i ganfod Aelod newydd i'r Bwrdd. Atgoffwyd yr Aelodau, yn unol â'r cylch gorchwyl, bydd y penodiad (fel cynrychiolydd cyflogwr) wedi ei gyfyngu i Aelodau a staff Cyngor Gwynedd yn unig. Nodwyd bod un cais wedi dod i law ac mai'r cam nesaf fydd trefnu cyfweliad.

- **CYFARFOD YMGYSYLLTU CADEIRYDDION BWRDD PENSIWN**

  Amlygodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu cyfarfod ymgysylltu Cadeiryddion Bwrdd Pensiwn y Bartneriaeth (04-02-25) ac wedi amlygu pryderon Gwynedd o'r awgrym y gall yr holl weithgarwch weithredu ei ddirprwyo i'r Bartneriaeth ac er yn derbyn bod angen Strategaeth Buddsoddi, beth fydd mewnbwn Gwynedd i'r Strategaeth?

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 14eg Hydref 2024 fel rhai cywir.

## 5. AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion cyfredol, ynghyd a chais i'r Bwrdd nodi'r cynnydd a'r amcanion ar gyfer 2025. Adroddwyd, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol, bu i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nodi'r angen i Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi gan nodi yn glir yr hyn ddisgwylir ganddynt.

Adroddwyd ers blynyddoedd bellach, bod y Gronfa wedi gosod amcanion i'r ymgynghorwyr presennol, Hymans Robertson a hynny i sicrhau bod y gwaith maent yn ei gyflawni yn cyd-fynd gydag amcanion strategol y Gronfa, ac yn ogystal yn rhan o lywodraethu da.

Adroddwyd bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un prysur gyda'r ymgynghorwyr yn darparu cyngor ar y strategaeth buddsoddi gyda'r opsiynau marchnadoedd preifat, ecwiti goddefol a sicrhau bod llif arian digonol i dalu'r pensiynwyr yn fisol. Ategwyd bod Hymans wedi cyd weithio gyda'r swyddogion i sicrhau bod polisïau mewnol yn cael eu cyfarch a bod cydymffurfiaeth gydag unrhyw reoliadau pensiwn perthnasol.

Er nad yw Hymans yn darparu hyfforddiant drwy gytundeb uniongyrchol i Gronfa Gwynedd, bod hyfforddiant amserol ar gael drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru, gyda chyfraniadau sylweddol gan Hymans. Amlygwyd yn ystod cyfnod o dendro diweddar bu i Hymans serenu o ran ansawdd ac er derbyn bod eu ffioedd yn uchel eu bod hefyd yn gystadleuol gyda chwmnïau eraill.

Wrth gyfeirio at amcanion 2025/26, adroddwyd eu bod yn parhau i fod yn debyg i amcanion y blynyddoedd blaenorol, ond bod gwaith sydd i'w weithredu yn 2025 wedi ei ychwanegu at y rhestr - gwaith megis y prisiad teirblynyddol, gosod targed sero net a datblygiadau'r ymgynghoriad.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am ddiweddaru'r amcanion

Mewn ymateb i sylw nad oes pwrpas dal gormod o arian yn y Gronfa gan fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn awgrymu defnyddio arian gweddilliol y cronfeydd i ariannu twf economi'r Deyrnas Unedig ac a ddylid felly ystyried lleihau taliadau cyflogwyr i osgoi hyn, nododd y Pennaeth Cyllid bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r actiwari ar y rhagdybiaethau hyn, ond er gwaethaf pwysau gan y Llywodraeth i bwlio buddsoddiadau, prif ddyletswydd y Gronfa yw cael y dychweliadau / perfformiad gorau i'w haelodau. Er hynny, derbyniwyd bod angen gwneud gwaith i ddad-risigio buddsoddiadau gan fod lefelau buddsoddi uwchlaw 100%.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a derbyn y cynnydd a wnaed ar amcanion yr ymgynghorwyr yn ystod 2024**

## 6. CYLLIDEB 2025/26 PENSIYNAU A RHEOLAETH TRYSORLYS

Cyflwynodd y Rheolwr Buddsoddi, er gwybodaeth, gyllideb ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025–2026. Nodwyd bod y gyllideb wedi ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau 27-01-2025.

Cyfeiriwyd at gyllideb yr Uned Gweinyddu, gan adrodd bod 25 aelod o staff yn gyflogedig yn yr Uned a bod y gyllideb yn cynnwys costau systemau, argraffu, ac ad-daliadau canolog. Nodwyd bod y costau yn gyson ar wahân i chwyddiant a nodwyd bod ambell swydd yn mynd drwy'r broses arfarnu ar hyn o bryd ac o ganlyniad, efallai bydd angen cynyddu'r gyllideb rhywfaint.

Cyfeiriwyd ar gostau'r Uned Buddsoddi sydd yn cael eu rhannu rhwng y Gronfa a Chyngor Gwynedd gan fod yr Uned hefyd yn gyfrifol am Reolaeth Trysorlys.

Nododd y Rheolwr Buddsoddi bod costau Partneriaeth Pensiwn Cymru, costau ymgynghorwyr a chostau rheolwyr buddsoddi yn rhan o gyfrifoldeb yr Uned Buddsoddi, ond bod y costau yn amrywio yn ddibynnol ar berfformiad y buddsoddiadau a'r gwaith sydd angen ei gyflawni gan yr ymgynghorwyr a'r Bartneriaeth. Ystyriwyd bod bwriad edrych yn fanylach ar waith a chostau'r ymgynghorwyr, gydag asiantaethau megis PIRC yn edrych ar werth am arian y Rheolwyr Buddsoddi ar draws y Cronfeydd. O ganlyniad, ni ystyriwyd budd o osod cyllideb fanwl i'r costau hyn.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth, a nodi cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26**

## 7. POLISIAU GWEINYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau adroddiad oedd yn cyflwyno chwe pholisi gweinyddol allweddol i'r Bwrdd eu harchwilio. Nodwyd bod y polisïau yn hanfodol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r gronfa bensiwn yn effeithiol ac yn gam sylweddol tuag at lywodraethu da. Ategwyd, yn dilyn adolygiad y Bwrdd, bydd y polisïau yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau ym Mawrth 2025.

Trafodwyd y Polisïau yn unigol gan roi cefndir a chyd-destun bob un i'r Aelodau

Polisi Prawf Bywyd i Bensiynwyr sy'n Byw Dramor
Polisi Gordaliad Pensiwn
Polisi Iaith Gyfathrebu
Polisi Dosbarthu Dogfennau Cronfa Bensiwn Gwynedd
Polisi Cyhoeddi Slip Cyflog y Gronfa Bensiwn
Polisi Talu Buddion Pensiwn a Lwmp Swm i Aelodau

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y gwaith o ffurfioli'r polisïau. Nodwyd bod rhai o'r diweddariadau wedi bod yn rhai doeth.

Croesawyd bod nodyn atgoffa yn cael ei rannu gydag Aelodau o'r trefniadau newydd i sicrhau bod buddion yn cael eu talu i fanylion cyfrif banc yn gywir a chyfredol (Polisi Talu Buddion Pensiwn a Lwmp Swm i Aelodau) ac y dylid amlygu hyn yn y polisi.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth gan argymell i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r Polisïau ym Mawrth 2025**

## 8. CANLYNIADAU ASESIAD GWYBODAETH CENEDLAETHOL

Yn 2024, cymerodd Cronfa Bensiwn Gwynedd ran yn Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol Hymans Robertson. Ystyriwyd bod yr asesiad yn werthusiad cynhwysfawr wedi'i gynllunio i asesu gwybodaeth a sgiliau gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol a chyrff goruchwylio o fewn cronfeydd pensiwn. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ymateb i ystod o gwestiynau ar draws gwahanol bynciau, gyda bwriad o ddefnyddio eu sgoriau i deilwra sesiynau hyfforddi effeithiol. Nodwyd bod y canlyniadau hefyd yn cael eu meincnodi yn erbyn cronfeydd eraill.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn crynhoi canlyniadau'r Bwrdd Pensiwn oedd hefyd yn cynnig opsiynau posib i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi.

Diolchwyd i Aelodau'r Bwrdd am gwblhau'r asesiad gan dderbyn bod yr asesiad wedi bod yn un heriol. Er bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn 18fed allan o 19 Cronfa, roedd hyn yn welliant i'r asesiad blaenorol.

Tynnwyd sylw at sylwadau Hymans Robertson ar y canlyniadau. Roeddynt yn nodi bod boddhad bod 14 o gyfranogwyr y Gronfa wedi cymryd rhan yn yr asesiad gyda'r canlyniadau'n weddol gadarnhaol (er yn amlwg bod meysydd o lefelau gwybodaeth uwch yn ogystal â meysydd sydd angen datblygu gwybodaeth ynddynt dros amser).

O ganlyniad i'r asesiad bydd cyfleoedd hyfforddi yn cael eu trefnu i'r Aelodau ynghyd a datblygiad cynllun hyfforddi cynhwysfawr fydd yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth a gallu'r Aelodau mewn meysydd hanfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod y broses yn hir wyntog - wedi colli amynedd erbyn y cwestiynau olaf
- Croesawu bod pob Aelod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Pensiynau yng Ngwynedd wedi cwblhau'r asesiad
- Byddai hyfforddiant wyneb yn wyneb yn fuddiol - yn gyfle da i rwydweithio ga rhoi sylw llawn i'r hyn sy'n cael ei gyflwyno
- Gyda rhai Aelodau mewn cronfeydd eraill heb gwblhau'r asesiad, y canlyniadau braidd yn annelwig
- I'r dyfodol, bod angen ystyried fformat / gosodiad rhai o'r cwestiynau - dylid ystyried y wybodaeth sydd angen ei wybod yn erbyn gwybodaeth fyddai'n ddymunol ei dderbyn
- Bod unrhyw hyfforddiant i'w groesawu - bod pynciau gwahanol angen fformat gwahanol - yn rhithiol, dros y we neu wyneb yn wyneb

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Pennaeth Cyllid nad oes angen i'r Aelodau fod yn gwybod pob dim gan fod arbenigwyr ar gael yn y maes i roi cyngor ac arweiniad, ond bod rhaglen hyfforddiant mewn lle i wella dealltwriaeth yr aelodau o'r maes

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn y wybodaeth**

**9. Y RHAGLEN WAITH DIWYGIEDIG**

Cyflwynwyd rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2025/26. Nodwyd bod y rhaglen yn cynnwys materion a nodwyd yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd blaenorol a materion yn codi. Amlygwyd y gellid ychwanegu materion sy'n codi yn ystod y flwyddyn i'r rhaglen yn unol ar angen ynghyd ag unrhyw faterion / syniadau fydd yn codi gan aelodau wedi sesiynau hyfforddi a / neu ddigwyddiadau perthnasol.

Diolchwyd am y rhaglen waith

Gwnaed cais am eitem i drafod diwygiadau arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig - diweddariadau ar unrhyw ddatblygiadau newydd.

**PENDERFYNWYD derbyn y rhaglen waith a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:50pm